O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 600 (Cy. 84)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Croesfan Reilffordd Cilyrychen, Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Mai 2024* |
| *Yn dod i rym* | *12 Mai 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Croesfan Reilffordd Cilyrychen, Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mai 2024.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 21:40 o’r gloch ar 12 Mai 2024 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

### Gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd yn Heol Llandeilo, Llandybïe, Sir Gaerfyrddin sy’n ymestyn o bwynt 40 metr i’r gogledd-ddwyrain o groesfan reilffordd Cilyrychen hyd at bwynt 40 metr i’r de-orllewin o’r groesfan reilffordd honno.

### Cymhwyso

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 3 Mai 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru